PŴER NIWCLEAR
HORIZON
NUCLEAR POWER

WYLFA NEWYDD

YNNI YN GWEITHIO I BRYDAIN

Prosiect Wylfa Newydd

Crynodeb o'r Adborth i Gam Un yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio

Ionawr 2016

Tabl cynnwys

Rhagair 2

Cyflwyniad 3

Datganiad o Ymgynghori Cymunedol 4

Gweithgareddau Cam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio 5

Darparu adborth i'r ymgynghoriad..... 7

Crynodeb o adborth Cam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio 9

Sut mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried 13

Ymgynghori yn y dyfodol a'r camau nesaf 14

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Rhagair

Ym mis Medi 2014 fe wnaethom lansio rownd gyntaf ein hymgynghoriad cyn ymgeisio – y cyfeirir ato'n gyffredin fel PAC1. Dyma ddechrau ein taith tuag at ein cais am orchymyn cydsyniad datblygu, un o'r camau allweddol ar y ffordd i adeiladu a gweithredu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd.

Ers i'r ymgynghoriad ddod i ben ym mis Rhagfyr 2014, rydym wedi bod yn gweithio i ddadansoddi'r adborth a gawsom ynghylch adeiladu gorsaf ynni niwclear newydd ar Ynys Môn. Mae ein hadroddiad o'r adborth i'r ymgynghoriad yn rhoi golwg gyffredinol o'n gweithgareddau ymgynghori a'r ymatebion a ddaeth i law.

Byddwn yn cynnal cam nesaf yr ymgynghoriad ffurfiol yn nes ymlaen yn 2016, pan fyddwn yn cyflwyno amrywiaeth o wybodaeth am yr Orsaf Bŵer a Datblygiadau Cysylltiedig ar draws Ynys Môn.

Rydym yn edrych ymlaen at ymgysylltu â chymunedau Ynys Môn a Gogledd Cymru eto yn y misoedd nesaf.

Alan Raymant
Prif Swyddog Gweithredu

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Cyflwyniad

Mae datblygiad Prosiect Wylfa Newydd yn gofyn am nifer o geisiadau dan ddeddfwriaethau gwahanol i reoleiddwyr gwahanol. Mae gorsaf bŵer niwclear yn brosiect seilwaith o bwys cenedlaethol (NSIP) dan Ddeddf Cynllunio 2008 ac mae'n rhaid i'r gwaith o'i hadeiladu a'i gweithredu gael ei awdurdodi gan orchymyn cydsyniad datblygu (DCO) a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd.

Mae Pŵer Niwclear Horizon Wylfa Cyfyngedig (Horizon) yn bwriadu cyflwyno cais am orchymyn caniatâd datblygu ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn yn 2017. Cyn cyflwyno'r cais hwn, mae'n ofynnol i ni ymgynghori â chyrff statudol, rheoleiddwyr, ac awdurdodau lleol yn ogystal â chymunedau lleol. Rydym wedi penderfynu cynnal dau gam ymgynghori ffurfiol.

Bu cam cyntaf yr ymgynghoriad cyn ymgeisio yn rhedeg am 10 wythnos, gan ddechrau ar 29 Medi 2014 a dod i ben ar 8 Rhagfyr 2014. Yn ystod yr ymgynghoriad hwn fe wnaethom gyflwyno ein cynlluniau ar gyfer Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig gan gynnwys opsiynau ar gyfer gwelliannau i ffyrdd a llety dros dro arfaethedig i weithwyr. Roedd cam cyntaf yr ymgynghoriad yn ymdrin â gofynion adran 47 Deddf Cynllunio 2008 yn ogystal â Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (SOCC) Horizon. Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol, a fydd yn bodloni gofynion dan adran 42 ymgyngoreion y Ddeddf Cynllunio, yn digwydd yn ystod ail gam yr ymgynghoriad cyn ymgeisio.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Datganiad o Ymgynghori Cymunedol

Paratowyd Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ac ymgynghorwyd arno gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn ystod haf 2014.

Cyhoeddwyd y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ym mis Medi 2014 drwy'r cyfryngau lleol a rhanbarthol ac fe'i rhoddwyd o fewn cyrraedd y cyhoedd mewn llyfrgelloedd ar draws Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy.

Amlinellodd y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol ein datblygiad arfaethedig ar Ynys Môn, yn ogystal â'r ffordd roeddem yn bwriadu ymgynghori â rhanddeiliaid a'r gymuned.

Yn ogystal, disgrifiodd y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol y grwpiau penodol, y busnesau lleol, y cynghorau tref a chymuned a'r sefydliadau a gynhwysir yn Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant Horizon, a gynlluniwyd yn benodol i'n galluogi i ymgysylltu â phobl o bob sector o'r gymuned, a chasglu adborth ganddyn nhw.

Ym mis Ionawr 2016, roedden ni wedi cyhoeddi diweddariad i fersiwn mis Medi 2014 ein Datganiad o Ymgynghori Cymunedol gan ein bod wedi newid rhai o'r ffyrdd rydyn ni'n bwriadu ymgynghori â'r gymuned leol a grwpiau ac unigolion eraill rydyn ni'n credu a allai weld effeithiau neu fanteision o ganlyniad i'n cynigion. Mae'r newidiadau hyn yn deillio o newid amser yr ymgynghori, cynnwys rhagor o ymgysylltu cymunedol anffurfiol, newidiadau posibl i ddeddfwriaeth cynllunio genedlaethol a gweithio agos gyda Phrosiect Llais Cymunedol Ynys Môn.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Gweithgareddau Cam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio

Cylchlythyr
Dosbarthwyd cylchlythyr Cymraeg a Saesneg ar draws Ynys Môn ddechrau mis Medi 2014 i hysbysebu'r ymgynghoriad, gan gyrraedd tua 33,000 o gartrefi.

Roedd y cylchlythyr yn cynnwys gwybodaeth am y gweithgareddau ymgynghori gan gynnwys sut i gymryd rhan, lle i gael gwybodaeth am gynigion Prosiect Wylfa Newydd, manylion am arddangosfeydd a sut i ymateb i'r ymgynghoriad.

Hysbysebion
Cafodd cynlluniau'r ymgynghoriad eu gosod mewn papurau newydd lleol a rhanbarthol. Fe wnaethom hefyd roi hysbyseb electronig yn Sinema Caergybi, ac ymddangosodd yr hysbyseb ar hyd y cyfnod ymgynghori cyfan o ddeg wythnos.

Cafodd posteri eu harddangos mewn gwahanol leoliadau ar draws yr Ynys, gan gynnwys canolfannau cymunedol a neuaddau pentref. Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau a'u llwytho i fyny i wefan Horizon drwy'r cyfnod ymgynghori.

Cafwyd cyfweliad estynedig â MônFM, gorsaf radio gymunedol Ynys Môn, yn y dyddiau cyn y cyfnod ymgynghori. Yn ogystal, fe wnaeth MônFM gefnogi'r ymgynghoriad drwy gydol y deg wythnos, gyda chyfeiriadau rheolaidd at yr arddangosfeydd oedd ar fin cael eu cynnal.

Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd a dulliau ymgysylltu eraill
Mae Grŵp Cyswllt y Prosiect (PLG) yn grŵp o randdeiliaid sy'n cwrdd yn rheolaidd i drafod materion o ddiddordeb mewn perthynas â Phrosiect Wylfa Newydd. Gwahoddir dros 100 o gynrychiolwyr y gymuned i fod yn bresennol, a gellir dod o hyd i restr ohonyn nhw ar wefan y grŵp: www.wylfaplg.org. Cynhaliodd Grŵp Cyswllt y Prosiect gyfarfodydd ar 1 Hydref a 3 Rhagfyr 2014 i drafod cam cyntaf yr ymgynghoriad cyn ymgeisio.

Arddangosfeydd
Yn ogystal â digwyddiadau lansio cychwynnol, gan gynnwys rhagolwg i gymdogion agos, cynhaliwyd 11 o arddangosfeydd cyhoeddus ar draws gogledd orllewin Cymru i gyflwyno gwybodaeth am gynigion Prosiect Wylfa Newydd. Rhoddodd y digwyddiadau hyn gyfle i'r cyhoedd ofyn cwestiynau i staff Horizon ac annog adborth ar yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd arddangosfeydd mewn amrywiaeth o leoliadau, yn ystod yr wythnos waith ac ar benwythnosau, yn ystod y prynhawn a gyda'r nos er mwyn galluogi'r nifer fwyaf o bobl i fod yn bresennol. Roedd staff Cymraeg ar gael ym mhob arddangosfa. Daeth dros 800 o bobl i'r arddangosfeydd cyhoeddus yn ystod deg wythnos y cyfnod ymgynghori.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Sesiynau galw heibio
Yn ogystal â'r arddangosfeydd cyhoeddus, fe wnaethom gynnal 'sesiynau galw heibio' mewn lleoliadau lle'r oeddem yn rhagweld nifer uchel o bobl, fel swyddfeydd a mannau gwaith. Cafodd y sesiynau hyn eu cynllunio i roi mynediad hawdd at wybodaeth am yr ymgynghoriad ac at aelodau o dîm Horizon. Roedd y sesiynau galw heibio'n cynnwys copïau o Ddogfen Drosolwg yr Ymgynghoriad a Chrynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Rhagarweiniol am Wybodaeth Amgylcheddol, yn ogystal â ffurflenni adborth yr ymgynghoriad. Cynhaliwyd pum sesiwn yn Ynys Môn, pedwar yng Ngwynedd a thair yng Nghonwy. Bu staff Horizon yn gofalu am y rhain i gyd am ddwy awr dros y cyfnod amser cinio.

Gweithgareddau ymgysylltu eraill
Roedd ein Strategaeth Cynyddu Cynhwysiant yn amlinellu'r gweithgareddau y byddem yn ymgymryd â nhw i ymgysylltu â grwpiau a oedd yn 'anodd eu cyrraedd' yn draddodiadol o fewn y gymuned. Fe wnaethom gynnal nifer o ddigwyddiadau a ddenodd gynulleidfa dda, gan gynnwys sesiwn ymgysylltu â phobl ifanc a nifer o gyflwyniadau i gynrychiolwyr grwpiau 'anodd eu cyrraedd'. Cafodd y gweithgareddau ymgysylltu hyn eu cynllunio i sicrhau bod llais rhychwant mor eang â phosibl o bobl ar yr Ynys yn cael ei glywed.

Stondinau gwybodaeth
Gosodwyd stondinau gwybodaeth di-griw ar draws yr Ynys i roi mynediad cyflym a hawdd at wybodaeth am yr ymgynghoriad. Roedd y stondinau gwybodaeth yn eu lle am wythnos ar y tro mewn nifer o leoliadau allweddol ar draws Ynys Môn.

Gwefan yr ymgynghoriad
Lluniwyd gwefan bwrpasol (www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad) ar gyfer yr holl wybodaeth am yr ymgynghoriad. Lansiwyd y wefan hon ar 29 Medi 2014 i gyd-fynd â lansio'r gweithgareddau ymgynghori. Roedd y wefan yn rhoi mynediad hawdd at holl ddogfennau'r ymgynghoriad yn ogystal â manylion am ddigwyddiadau ymgynghori drwy gydol y cyfnod o ddeg wythnos.

Cyfryngau cymdeithasol
Lansiodd Horizon gyfrif Twitter (@HorizonNuclear) i gyd-fynd â lansio'r ymgynghoriad. Anfonwyd negeseuon trydar ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys cyfeirio at bob un o'r digwyddiadau ymgynghori. Erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori o ddeg wythnos, roedd gan y cyfrif Twitter dros 300 o ddilynwyr.

Yn ogystal, lansiodd Horizon sianel YouTube – www.youtube.com (Horizon Nuclear Power) fel cartref i fideos ar Brosiect Wylfa Newydd, a lansiwyd y sianel gyda ffilm fer yn amlinellu'r broses ymgynghori a Phrosiect Wylfa Newydd. Cafodd y fideo hwn, a gynhyrchwyd yn Gymraeg a Saesneg, ei weld fwy na 750 o weithiau ers ei lwytho i fyny ym mis Medi 2014.

Cymorthfeydd Agored
Mae Horizon yn cynnal cymorthfeydd agored misol yn rheolaidd ar Ynys Môn. Mae'r rhain yn cael eu cynnal yng Nghemaes, Amlwch a Llangefni yn eu tro, ac wedi cael eu cynnal ers 2010.

Swyddfa Safle Wylfa
Mae Horizon yn aelod pwysig ac integredig o'r gymuned leol yn ogystal â bod yn rhan o'r gymuned fusnes ar draws gogledd orllewin Cymru. Mae gennym swyddfa ar safle'r Wylfa, sydd ar hyn o bryd yn cyflogi dros 20 o staff parhaol.

Roedd gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar gael drwy gydol y cyfnod o ddeg wythnos yn swyddfa'r safle ac yng nghanolfan ymwelwyr Magnox gerllaw.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Darparu adborth i'r ymgynghoriad

CYFLWYNIAD

Ceisiwyd barn y cyhoedd ac ymgyngoreion statudol ar bob agwedd ar Brosiect Wylfa Newydd, o ran yr Orsaf Bŵer a Datblygiadau Cysylltiedig, yn ogystal ag amrywiaeth o bynciau eraill gan gynnwys swyddi a sgiliau, y gadwyn gyflenwi a manteision cymunedol.

At ddibenion gweithgareddau Cam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, y rhanddeiliaid statudol oedd:

- y rhai a ragnodwyd gan Reoliadau Cynllunio Seilwaith 2009;
- cyrff llywodraethu lleol, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i, gynghorau sir, tref a chymuned; a'r
- rhai a nodwyd fel yr asiantaeth neu gorff gwybodaeth arbenigol neu arweiniol ar bwnc penodol yn y rhanbarth.

Aed ati i annog aelodau'r gymuned leol i roi adborth ar ein hymgynghoriad drwy gydol y deg wythnos. Roedd nifer o ffyrdd y gallai pobl ymateb, gan gynnwys ffurflenni copi caled, a oedd ar gael ym mhob man gwybodaeth ac ym mhob digwyddiad, yn ysgrifenedig neu drwy e-bost yn uniongyrchol i ni, neu drwy'r porth ar-lein.

Fe wnaethom gynllunio pob ffurflen gyda'r un fformat a chynnwys i sicrhau bod yr ymatebwyr yn cael eu trin yn yr un modd, waeth beth oedd y dull ymateb a ddewiswyd ganddyn nhw.

HOLIADUR CAM UN YR YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO

Roedd y ffurflen adborth yn cynnwys 14 o gwestiynau gyda blychau testun rhydd ar gyfer ymatebion, yn ymwneud â phynciau allweddol o fewn y Ddogfen Ymgynghori. Y cwestiynau oedd:

Cwestiwn 1
Oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol ar y Prosiect?

Cwestiwn 2
Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y ffordd mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal?

Cwestiwn 3
Oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol a gyflwynwyd gan Horizon?

Cwestiwn 4
Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion datblygu arfordirol Horizon ym Mhorth-y-pistyll a Thrwyn Wylfa, sy'n ymwneud â'r system dŵr oeri (gan gynnwys y morgloddiau) a'r Cyfleuster Dadlwytho Morol?

Cwestiwn 5
Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig tirweddu dangosol Horizon?

Cwestiwn 6
A ydych chi'n meddwl y dylid dylunio adeiladau'r Orsaf Bŵer i weddu i'r dirwedd neu a ddylen nhw fod yn nodwedd bensaernïol amlwg yn y dirwedd, neu a oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch hyn?

Cwestiwn 7
Oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â sgiliau a hyfforddiant a hybu cyflogaeth leol a rhanbarthol?

Cwestiwn 8
Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch ymgysylltiad Horizon â'r gadwyn gyflenwi a chynigion ar gyfer prynu gan fusnesau a chyflenwyr lleol a rhanbarthol?

Cwestiwn 9
Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar egwyddorion Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig ddrafft Horizon?

Cwestiwn 10
Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion trafnidiaeth môr Horizon?

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Cwestiwn 11
Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion trafnidiaeth ffyrdd Horizon?

Cwestiwn 12
Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr ardal chwilio fawr neu awgrymiadau ar gyfer safleoedd gallai Horizon eu datblygu ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio, canolfannau logisteg neu lety gweithwyr dros dro?

Cwestiwn 13
Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer manteision tymor hir neu fanteision i'r dyfodol neu gyfleusterau cymunedol?

Cwestiwn 14
Oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ar gynigion Prosiect Horizon?

Roedd cwestiynau 1 a 14 yn gyfle i roi ymatebion cyffredinol i gynigion y Prosiect, neu ymatebion nad oedden nhw'n ymwneud yn uniongyrchol â chwestiynau 2-13. Roedd hyn yn galluogi Horizon i gael adborth ar faterion nad oedden nhw wedi cael eu cynnwys o bosibl yn y dogfennau ymgynghori. Gallai ymatebwyr ateb unrhyw rai o'r 14 cwestiwn ymgynghori fel rhan o'u hadborth.

DOGFENNAU'R YMGYNGHORIAD

Roedd y deunyddiau ymgynghori yn darparu lefelau amrywiol o wybodaeth dechnegol, ar ffurf dwy ddogfen annhechnegol a dwy ddogfen dechnegol. Fe wnaethon ni gynllunio'r dogfennau annhechnegol i sicrhau eu bod nhw'n hawdd i'r cyhoedd eu darllen, gyda'r dogfennau technegol wedi eu hanelu at awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill.

Roedd y dogfennau annhechnegol yn cynnwys y Ddogfen Drosolwg o'r Ymgynghoriad a'r Crynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Rhagarweiniol ar Wybodaeth Amgylcheddol. Roedd y dogfennau crynodeb hyn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Y dogfennau technegol a baratowyd ar gyfer yr ymgynghoriad oedd y Ddogfen Ymgynghori a'r Adroddiad Rhagarweiniol ar Wybodaeth Amgylcheddol.

Yn ychwanegol at y prif ddogfennau ymgynghori, ymgynghorodd Horizon hefyd â rhanddeiliaid allweddol ynghylch adroddiadau cwmpasu ar gyfer tri asesiad ategol i gyd-fynd â'r cais am y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Y rhain oedd:

- Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith, a amlinellodd y dull sy'n cael ei gynnig gan Horizon ar gyfer asesu effeithiau posibl Prosiect Wylfa Newydd ar y Gymraeg a'i diwylliant;
- Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, a amlinellodd y dull sy'n cael ei gynnig gan Horizon ar gyfer asesu effeithiau posibl Prosiect Wylfa Newydd ar iechyd a lles; a
- Adroddiad Cwmpasu Asesiad Cynaliadwyedd, a ddarparodd y cefndir technegol ar gyfer diffinio cynaliadwyedd ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd.

Yn olaf, yn gyfochrog â'r ymgynghoriad cyn ymgeisio, ymgynghorodd Horizon ar Gynllun Cefnogi Cymdogaeth. Mae'r Cynllun hwn yn fenter gwbl wirfoddol i ddarparu cymorth i drigolion o fewn radiws o 1km o Safle'r Orsaf Bŵer, yn ychwanegol at unrhyw fesur lliniaru statudol a rheolaethau a nodwyd ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd. Mae'n cynnwys dau fesur amlwg:

- Cefnogaeth Pris Eiddo i'r trigolion sy'n byw agosaf at Safle'r Orsaf Bŵer y mae'r datblygiad yn effeithio ar werth eu heiddo; a
- Lliniaru Aflonyddwch, a oedd yn cynnwys mesurau ychwanegol i leihau'r sŵn adeiladu yn yr eiddo y bydd y gwaith yn effeithio arnyn nhw.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Crynodeb o adborth Cam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio

CYFLWYNIAD

Cafwyd pedwar cant dau ddeg a phedwar o ymatebion i'n hymgynghoriad gan ymatebwyr statudol ac anstatudol.

Gellir crynhoi'r ymatebion o amgylch y themâu a ganlyn:

- Datblygiadau Cysylltiedig, yn enwedig yr angen am ragor o wybodaeth am leoliad, maint a nodweddion gweithredol llety gweithwyr, canolfannau logisteg, a chyfleusterau parcio a theithio;
- Asesu a lliniaru effeithiau amgylcheddol;
- Priffyrdd a thrafnidiaeth: gwelliannau ffyrdd, cynigion ac uwchraddio diogelwch; yn enwedig ar hyd yr A5025;
- Cymorth ar gyfer cludiant aml-foddol a diddordeb yng nghwmpas y Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig (ITTS) arfaethedig;
- Datblygiadau arfordirol, yn enwedig cefnogaeth i'r Cyfleuster Dadlwytho Morol (MOLF) arfaethedig;
- Y gwaith tirweddu sydd ei angen i ymdrin â'r effeithiau gweledol ac o ran sŵn ar yr ardal o gwmpas Safle'r Orsaf Bŵer;
- Pwysigrwydd defnyddio llafur lleol a gwaith cynnar ar gyfer parodrwydd y gadwyn gyflenwi;
- Darparu rhaglenni hyfforddiant i bobl leol er mwyn sicrhau parodrwydd i ateb y galw a ddaw yn sgil rhaglen Prosiect Wylfa Newydd;
- Effeithiau ar gymunedau a thai (nodweddion economaidd-gymdeithasol);
- Diogelu'r diwydiant twristiaeth;
- Darparu manteision cymunedol yn ystod y gwaith adeiladu ac i'r dyfodol; a
- Chefnogi'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.

Cafwyd dau ymateb wedi eu grwpio. Y cyntaf oedd deiseb gan Gyngor Tref Amlwch o blaid defnyddio Rhosgoch fel lleoliad ar gyfer llety gweithwyr. Cyflwynwyd y ddeiseb - gyda 371 o lofnodion - yn yr arddangosfa a gynhaliwyd yn Amlwch.

Nid oedd yr ail yn ddeiseb ffurfiol, ond yn hytrach yn llythyr ffurf a gyflwynwyd gan 149 o ymatebwyr yn gwrthwynebu defnyddio safleoedd Penrhos, Cae Glas a Kingsland yng Nghaergybi ar gyfer llety gweithwyr.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

YMGYNGOREION STATUDOL

Ymatebodd tri deg wyth o ymgyngoreion statudol i'r ymgynghoriad.

Roedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflwyno ymateb manwl a oedd yn codi'r themâu canlynol:

- **Canllawiau Cynllunio Atodol.** Mynegwyd pryder nad oedd digon o gyfeiriadau yn neunyddiau Horizon at ddogfen Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa: Canllawiau Cynllunio Atodol, a fabwysiadwyd ar 19 Gorffennaf 2014, yn ystod camau olaf y gwaith paratoi ar gyfer Cam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio.
- **Gwastraff niwclear.** Mynegwyd pryder mawr am hyd posibl cyfnod storio Gwastraff Lefel Ganolraddol a Thanwydd wedi'i Ddefnyddio ar Safle'r Orsaf Bŵer rhwng rhoi'r gorau i gynhyrchu pŵer a'r gallu i'w trosglwyddo i gyfleuster gwaredu daearegol arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig, nad yw'n bodoli eto. Roedd y Cyngor Sir yn awyddus i sicrhau bod Horizon yn rhoi ystyriaeth lawn a phriodol i oblygiadau cadw'r cyfleusterau storio unwaith y byddai'r safle gweithredol wedi cael ei ddatgomisiynu, a gofynnodd am asesiad trylwyr o'r effeithiau amgylcheddol.
- **Proffiliau gweithwyr adeiladu a gweithredol.** Cyfeiriodd y Cyngor Sir at y diffyg manylion ynghylch y dadansoddiad o'r gweithlu adeiladu a gweithredu, gan nodi pwysigrwydd yr wybodaeth hon wrth ystyried nifer o faterion economaidd-gymdeithasol allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys gofynion posibl o ran hyfforddiant, gwella sgiliau ac addysg; y cysylltiad rhwng effeithiau cymunedol, cymdeithasol ac ieithyddol a nifer amcangyfrifedig y gweithwyr, proffiliau a chyfnodau cyflogaeth, yn enwedig i weithwyr dibreswyl.
- **Cyflogaeth leol.** Mae'r Cyngor Sir yn dymuno gweld ymrwymiad gan Horizon i hyrwyddo cyfleoedd gwaith lleol, yn enwedig yn ystod y gwaith adeiladu, a gyflwynwyd fel rhywbeth allweddol i gynnal ewyllys da a chefnogaeth pobl leol tuag at Brosiect Wylfa Newydd.
- **Dadleoli.** Dywedodd y Cyngor Sir y byddai angen ystyried dadleoli'n llawn a rhoi strategaethau priodol ar waith i osgoi effeithiau negyddol ar economi a chymunedau Ynys Môn.
- **Cadwyn gyflenwi.** Roedd y Cyngor Sir yn dymuno i Horizon ddylanwadu ar y gadwyn gyflenwi drwy osod contractau, a chyfeiriodd at ddiffyg tystiolaeth o hyn yn neunyddiau Cam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio.
- **Yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant.** Roedd y Cyngor Sir yn cydnabod y bydd Horizon yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, ac ailadroddodd fod '*diogelu a gwella'r Gymraeg a'i diwylliant yn sylfaenol bwysig i bobl a chymunedau Ynys Môn.*'
- **Twristiaeth.** Nododd y Cyngor Sir y byddai angen rhagor o waith casglu a dadansoddi data sylfaenol er mwyn gallu canfod camau lliniaru rhagweithiol a digonol i'r hyn a allai fod yn effeithiau andwyol ar y sector yn ei gyfanrwydd.
- **Priffyrdd a thrafnidiaeth.** Nodwyd yn sylwadau'r Cyngor Sir fod swyddogion wedi tybio y byddai'r A5025 yn destun gwaith ailadeiladu llawn a'i haddasu at y dyfodol, yn ychwanegol at y gwelliannau lleol a ddangosir yn neunyddiau Cam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, a heriwyd absenoldeb y cyfeiriad hwn. Gofynnwyd am ragor o fanylion ynghylch goblygiadau Prosiect Wylfa Newydd ar Bont Britannia. Roedd y Cyngor Sir yn cefnogi datblygu strategaeth priffyrdd a thrafnidiaeth aml-foddol strategol ac integredig, gan nodi'r angen iddi asesu'r effeithiau ar Ynys Môn a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru yn ystod y gwaith adeiladu a'r cyfnod gweithredu.
- **Effeithiau ar gymunedau a thai Ynys Môn.** Roedd y sylwadau'n cydnabod na allai effeithiau ar gymunedau a thai gael eu mesur yn gyfan gwbl hyd nes byddai safleoedd y Datblygiadau Cysylltiedig yn hysbys, gan gydnabod bod deunyddiau Cam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio yn cynnwys cwestiwn am y dewisiadau lleoli. Er gwaethaf hyn, roedd y Cyngor Sir yn dymuno rhagor o fanylion mewn perthynas â'r amodau cymdeithasol sylfaenol a sefydlwyd ar gyfer Ynys Môn fel rhagflaenydd i sicrhau y gellir 'meincnodi effeithiau, eu hasesu a'u lliniaru'n briodol yn erbyn llinell sylfaen gyffredin y cytunwyd arni.'
- **Effeithiau cronnus.** Roedd sylwadau'r Cyngor Sir yn cyfeirio at effeithiau cronnus pob agwedd ar Brosiect Wylfa Newydd fel rhai a fyddai'n ehangach nag Ynys Môn, gan nodi bod angen i Horizon ystyried hyn yn y dyfodol. Gwnaed pwynt penodol mewn perthynas â maint cymharol fach cronfa lafur Gogledd Cymru a'r potensial ar gyfer cystadleuaeth rhwng datblygiadau sy'n digwydd ar yr un pryd, gan effeithio ar allu pobl leol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth.

Mae'r themâu lefel uchel hyn yn gynrychioladol gan fwyaf o'r themâu sylfaenol a gafwyd ar draws yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Y GYMUNED LEOL AC UNIGOLION

Isod, darperir crynodeb lefel uchel o themâu a nodwyd yn yr ymatebion i Gam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio gan grwpiau cymunedol ac unigolion lleol (hy grwpiau anstatudol).

Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad yn amrywio'n eang ar draws pob un o'r themâu. Gan hynny, mae'n aml yn anodd diffinio un ateb neu ychwanegiad o ran dyluniad Prosiect Wylfa Newydd.

Ymgynghoriad. Roedd gwerthfawrogiad cyffredinol o'r gweithgareddau ymgynghori a gynhaliwyd gan Horizon, a bod yr allgymorth, yr arddangosfeydd a'r deunyddiau yn hawdd eu deall ac yn cyfleu'n glir gynnig Horizon ar adeg yr ymgynghoriad. Ar y llaw arall, cwestiynwyd yn gyffredinol a yw barn leol yn cael ei hystyried mewn gwirionedd, ac roedd teimlad o ddiffyg tryloywder yn y broses. Nodwyd diffyg gwybodaeth dechnegol fanwl yn y dogfennau ymgynghori yn aml. Awgrymwyd rhagor o ymgysylltu â chymdogion a phentrefi cyfagos yn ogystal ag ymhellach draw ar Ynys Môn a'r tir mawr.

Asesiad amgylcheddol. Amlygwyd yn aml yr angen am asesu effeithiau amgylcheddol a mesurau lliniaru Prosiect Wylfa Newydd yn ei gyfanrwydd (gan gynnwys Datblygiadau Cysylltiedig), ac adrodd ar hynny mewn dogfennau ymgynghori yn y dyfodol. Nodwyd cefnogaeth yn gyson i fwriad Horizon i baratoi Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd a'r Effaith ar y Gymraeg.

O fewn yr asesiad effaith amgylcheddol, nodwyd yn benodol bod yn rhaid i'r effeithiau ar dwristiaeth gael eu hasesu a'u lliniaru. Dangosodd yr ymatebion bryder am ddiogelu twristiaeth yn y tymor agos, yn ystod cyfnod adeiladu Prosiect Wylfa Newydd ac ar ôl y gwaith adeiladu. Nodwyd ceisiadau am ragor o wybodaeth ynghylch lleoliad posibl storio gwastraff. Mynegwyd pryder drwy gydol yr ymatebion am amrywiaeth eang o bynciau economaidd-gymdeithasol.

Datblygiadau arfordirol a chynigion ynghylch y môr. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad drwyddi draw, nodwyd cefnogaeth i'r Cyfleuster Dadlwytho Morol a defnyddio cludiant ar y môr, yn enwedig gan ei fod yn ymwneud â lleddfu tagfeydd ar y ffyrdd. Gofynnwyd am gael rhagor o wybodaeth am y Cyfleuster Dadlwytho Morol a dyluniad y morglawdd mewn dogfennau ymgynghori yn y dyfodol. Nodwyd cefnogaeth gyffredinol i ddefnyddio lleoliad presennol yr ollyngfa dŵr oeri, tra mynegwyd pryder am effeithiau posibl y system dŵr oeri ar fywyd morol a gweithgareddau hamdden ar yr arfordir neu ar y môr.

Tirweddu. Cafwyd cefnogaeth eang i'r angen am dirweddu, gyda rhai ymatebion yn cwestiynu pa mor ddigonol oedd y cynigion a nodir yn y deunyddiau ymgynghori. Un thema gyffredin oedd bod yn rhaid i ymyrraeth weledol Prosiect Wylfa Newydd gael ei gadw mor fach â phosibl er mwyn amddiffyn twristiaeth ac eiddo preswyl, gyda phryder yn cael ei fynegi am y posibilrwydd o golli golygfeydd o eiddo preswyl yn yr ardal sy'n union wrth Safle'r Orsaf Bŵer oherwydd y gwaith arfaethedig i godi twmpathau. Fodd bynnag, mae angen codi twmpathau a chynnal gwaith tirweddu yn gynnar i ddarparu sgrinio gweledol ac o ran sŵn yn ystod y gwaith adeiladu. Mae angen rhagor o wybodaeth am y cynigion tirweddu (a'r Cynllun Tirweddu a Rheoli Amgylcheddol sydd ar ddod) mewn dogfennau ymgynghori yn y dyfodol.

Roedd yr ymatebion yn rhanedig ynghylch a ddylai pensaernïaeth yr adeiladau arfaethedig gael ei chynllunio i ymdoddi i'r dirwedd ynteu a ddylai wneud datganiad beiddgar. Fodd bynnag, cafwyd cefnogaeth gyson i ddefnyddio deunyddiau lleol.

Cadwyn gyflenwi. Roedd ymatebion yn gyson o ran yr angen i ddefnyddio cyflenwyr lleol a busnesau sy'n darparu gwasanaethau lleol. Yn yr un modd, roedd yr ymatebion yn gyson y dylid cynnwys contractwyr yn gynnar er mwyn darparu'r hyfforddiant a'r gwaith gwella sgiliau sydd ei angen i sicrhau eu bod nhw'n barod i gwrdd â rhaglen Prosiect Wylfa Newydd.

Ochr yn ochr â hyn, mynegwyd pryder na fyddai busnesau lleol yn cael digon o gymorth i wneud y gorau o fanteision lleol Prosiect Wylfa Newydd, bod y fframwaith presennol yn ei gwneud yn anodd i gwmnïau llai ymuno â'r farchnad, ac na all busnesau lleol gyflenwi'r holl sgiliau neu wasanaethau sy'n ofynnol gan Brosiect Wylfa Newydd. Nodwyd pryder clir yn yr ymatebion ynghylch y posibilrwydd o ddadleoli'r farchnad lafur leol, gan nodi bod potensial i gynyddu'r galw am lafur lleol i'r graddau y gallai amharu ar y farchnad adeiladu leol, gan arwain at ostyngiad yn nifer yr adeiladwyr sydd ar gael ar gyfer pob prosiect arall. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y Siarter Cadwyn Gyflenwi mewn dogfennau ymgynghori yn y dyfodol.

Swyddi a sgiliau, cyflogaeth leol. Cafwyd ymateb aruthrol ynghylch yr angen am gyflogaeth sgiliau uwch â thâl da ar Ynys Môn, a chafwyd gwerthfawrogiad y gall Prosiect Wylfa Newydd ddarparu'r cyfle hwn. Gyda hyn, awgrymwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad bod angen i Horizon fuddsoddi'n sylweddol mewn rhaglenni hyfforddi i sicrhau bod y gweithlu presennol ar gael i gwrdd â gofynion rhaglen Prosiect Wylfa Newydd.

Ymhellach, dylai'r defnydd o weithwyr a chwmnïau lleol gael ei orfodi, a dylai Horizon noddi prentisiaethau mewn sefydliadau lleol (Coleg Menai, Prifysgol Bangor) i annog pobl ifanc i fynd i feysydd cyflogaeth a all gefnogi Prosiect Wylfa Newydd. Fel yn achos y gadwyn gyflenwi, mae pryder cyffredinol y bydd Prosiect Wylfa Newydd yn denu gweithwyr lleol a rhai ar draws y rhanbarth, fel ei fod yn gadael bwlch mewn adnoddau llafur ar draws sectorau busnes eraill.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Gwelliannau i ffyrdd a phriffyrdd. Cafwyd cefnogaeth eang i'r angen am welliannau ffyrdd, gan nodi fod y cynigion a nodwyd ynghylch ffyrdd yn gam tuag at hyn. Fodd bynnag, cafodd hyn ei dymheru gan bryder cyffredinol ynghylch tagfeydd a diogelwch ar y ffyrdd ar hyn o bryd. Awgrymwyd nifer o welliannau i'r A5025, yn amrywio o ail-greu'r briffordd yn llawn at yr angen am rannau goddiweddyd ychwanegol a sythu rhai troeon sydd yno ar hyn o bryd.

Nodwyd yr angen am well dealltwriaeth o broffiliau gweithwyr a phatrymau cymudo, gan amlygu na ellid asesu'n llawn y gwelliannau angenrheidiol i'r ffyrdd hyd nes bod yr wybodaeth hon ar gael, yn enwedig o ran lleoliad y llety i weithwyr.

Cafodd cefnogaeth i ddefnyddio trafnidiaeth rheilffordd a'r môr ei gydnabod drwy gydol yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn enwedig gan ei fod yn ymwneud â lleihau symudiadau cerbydau a lorïau ar ffyrdd lleol. Cydnabuwyd hefyd bod angen diogelu cyfleoedd hamdden yn yr ardal, gan gynnwys llwybrau beicio, llwybrau troed a Llwybr Arfordir Cymru.

Mynegwyd pryder am dagfeydd ar y pontydd ar draws y Fenai ar hyn o bryd, ac y byddai Prosiect Wylfa Newydd yn gwaethygu'r sefyllfa. Codwyd yr awgrym o'r angen am drydedd bont hefyd. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig (ITTS) mewn dogfennau ymgynghori yn y dyfodol.

Datblygiadau Cysylltiedig. Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ynghylch Datblygiadau Cysylltiedig i raddau helaeth yn amlygu'r angen am ragor o wybodaeth ynghylch proffiliau gweithwyr a phatrymau cymudo; y lleoliad a awgrymir ar gyfer llety gweithwyr, canolfannau logisteg, a chyfleusterau parcio a theithio; a materion trafnidiaeth ynghylch gweithwyr yn symud rhwng eu llety, Safle'r Orsaf Bŵer, a lleoliadau Datblygiadau Cysylltiedig.

- **Llety gweithwyr.** Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cytuno ynghylch yr angen am lety i weithwyr. Fodd bynnag, roedd y farn ar leoliad, dyluniad a maint y llety i weithwyr yn amrywio'n fawr.
  - **Lleoliad.** Roedd adborth ar leoliad y llety i weithwyr yn tueddu i alinio o gwmpas y syniad ei fod mor agos ag y bo modd at Safle'r Orsaf Bŵer (gan gynnwys ar y safle), a lle nad oedd hynny'n bosibl, y dylid archwilio'r syniad o ddefnyddio safleoedd sy'n bodoli'n barod, neu a ddatblygwyd yn flaenorol neu a gafodd ganiatâd yn flaenorol. Cafwyd cefnogaeth a gwrthwynebiad i ddefnyddio safleoedd Penrhos, Cae Glas a Kingsland yng Nghaergybi. Cafwyd deiseb gan Gyngor Tref Amlwch o blaid defnyddio hen safle Shell yn Rhosgoch ar gyfer llety gweithwyr; ategwyd hyn gan gynghorau cymuned ac unigolion cyfagos eraill. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo ei bod hi'n rhy anodd cyrraedd y safle hwn o Safle'r Orsaf Bŵer ar hyd ffyrdd presennol, ac awgrymwyd na ddylid ei ystyried ar gyfer llety gweithwyr. Awgrymwyd defnyddio Parc Cybi ac ystyried Amlwch, Llangefni, Caernarfon a Bangor ar gyfer llety gweithwyr hefyd. Cafwyd gwrthwynebiad cyffredinol i lety gweithwyr yn Llanfechell, ardal Cyngor Cymuned Mechell, a Chemaes.
  - **Dyluniad a maint.** Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau am ddyluniad llety gweithwyr, gan gynnwys darparu tai cymdeithasol yn y tymor hir (i'w defnyddio gan weithwyr yn y tymor byr), defnyddio llety cudd o fewn y sectorau preswyl a thwristiaeth, ac adeiladu llety pwrpasol. Cafwyd amrywiaeth debyg o safbwyntiau ar faint y llety i weithwyr, yn amrywio o adeiladu tai ar raddfa fawr yng Nghaergybi i ddatblygu cartrefi unigol i deuluoedd neu dai cymdeithasol mewn symiau bach.
- **Parcio a theithio.** Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o ddarparu cyfleuster parcio a theithio, gyda'r cafeat na ellid asesu effeithiau Prosiect Wylfa Newydd ar draffig yn llawn hyd nes bydd penderfyniad ar leoliad y Datblygiadau Cysylltiedig, gan gynnwys parcio a theithio. Roedd ymdeimlad cyffredinol drwy gydol yr ymatebion y byddai'n well lleoli'r cyfleuster parcio a theithio ar hyd yr A55; fodd bynnag, awgrymwyd defnyddio safle Alwminiwm Môn a hen safle Shell hefyd. Yn ogystal, nododd ymatebwyr yr angen posibl am gyfleuster parcio a theithio ar y tir mawr.
- **Canolfan logisteg.** Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o ddarparu o leiaf un ganolfan logisteg. Roedd yr ymatebion ynglŷn â lleoliad y ganolfan logisteg yn debyg i'r rhai a gafwyd ar y cyfleuster parcio a theithio.

Manteision cymunedol. Roedd sicrhau manteision cymunedol tymor byr a pharhaol yn deillio o Brosiect Wylfa Newydd yn amlwg drwy'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, roedd yr awgrymiadau ynghylch manteision cymunedol yn eang iawn, heb lawer iawn o gonsensws ynghylch y math o fanteision cymunedol y dylid eu darparu. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys:

- Darparu cyfleusterau hamdden, canolfan ymwelwyr a darparu cyfleusterau yn unol â'r hyn a ddarperir gan Glwb Cymdeithasol a Chwaraeon Wylfa;
- Cefnogi a gwella'r ddarpariaeth gofal iechyd yn lleol;
- Cefnogaeth i ysgolion a gweithgareddau gwyddoniaeth, technoleg a mathemateg (STEM), gan arwain at ddarparu cyflogaeth leol; a
- Gwelliannau i gyfleusterau hamdden ac adloniant yn agos at Safle'r Orsaf Bŵer, yn enwedig llwybrau troed a llwybrau beicio a diogelu Gerddi Cestyll.

Mae Horizon wedi mynd ati i gynnal trafodaethau gyda'r Cyngor Sir ynghylch ffordd dderbyniol o ddarparu manteision cymunedol a manteision i'r dyfodol. Mae dogfen Dull Gweithredu Cyffredin tuag at fanteision cymunedol wrthi'n cael ei chytuno rhwng Horizon a'r Cyngor Sir, a fydd yn amlinellu'r ffordd y bydd manteision cymunedol yn cael eu cyflawni drwy Brosiect Wylfa Newydd, gan ystyried y materion cyfreithiol a llywodraethu y bydd angen i Horizon ac ymgyngoreion statudol gydymffurfio â nhw.

Yr Iaith Gymraeg. Nodwyd yr angen i gefnogi ac amddiffyn y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig drwy gydol yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nodwyd cefnogaeth i'r ffaith fod Horizon yn paratoi Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg hefyd.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Sut mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried

Mae ***Ffigur 1*** yn dangos y broses a ddefnyddiwyd i brosesu ac ystyried yr ymatebion i Gam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio.

Roedden ni wedi defnyddio gwasanaethau ymgynghorydd o'r enw Dialogue by Design i reoli adborth a gafwyd yng Ngham Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio. Roedd hyn yn fodd o adolygu a chatalogio pob ymateb a gafwyd yn annibynnol.

Er mai Dialogue by Design oedd yn rheoli gwaith adolygu ffurfiol yr adborth, roedden ni wedi cynnal adolygiad cyfochrog o bob ymateb a gafwyd. Cafodd yr ymatebion eu bwndelu dan themâu tebyg a'u dosbarthu i dimau ar draws Horizon i'w hystyried.

Cafodd pob ymateb a gyrhaeddodd Dialogue by Design ei logio, ei nodi dan rif adnabod unigryw er mwyn sicrhau bod yr ymatebydd yn aros yn ddienw, ac yna ei gofnodi ar gronfa ddata dadansoddi a grëwyd ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd. Cafodd yr ymatebion a gafwyd yn Gymraeg eu cyfieithu i'r Saesneg yn gyntaf ac yna eu cofnodi yn y gronfa ddata.

Lluniwyd rhestr fanwl o bynciau a oedd yn disgrifio'r materion a godwyd yn yr ymatebion i Gam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio gan aelodau o dîm Dialogue by Design a Horizon. Yna, cafodd y pynciau hyn eu grwpio dan themâu, a chafodd y ddwy restr, y cyfeiriwyd atyn nhw fel fframweithiau codio, eu cymhwyso i bob ymateb er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddadansoddi adborth Cam Un yr ymgynghori cyn ymgeisio.

Yn yr adroddiad hwn rydyn ni wedi crynhoi ein dealltwriaeth o'r ymatebion a gafwyd i Gam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio. Mae'r broses hon yn gyson â'r camau a amlinellir yn Natganiad o Ymgynghori Cymunedol Horizon, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014.

Ffigur 1: Y broses a ddefnyddiwyd i brosesu ac ystyried yr ymatebion i Gam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio



© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Ymgynghori yn y dyfodol a'r camau nesaf

Ers diwedd yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2014, mae Horizon wedi parhau i ymgynghori ac ymgysylltu â chyrff statudol ac anstatudol.

Roedd yr adborth a gafwyd i gam un yr ymgynghoriad yn nodi'n glir bod angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â chynigion i wella'r ffyrdd a Datblygiadau Cysylltiedig.

I fynd i'r afael â'r materion hyn, cynhaliodd Horizon bum digwyddiad gwybodaeth ym mis Gorffennaf 2015 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynigion ynghylch gwella'r ffyrdd a syniadau lefel uchel am leoliad y Datblygiadau Cysylltiedig (llety dros dro i weithwyr, canolfannau logisteg, a chyfleusterau parcio a theithio).

Mae digwyddiadau gwybodaeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar bob agwedd o Brosiect Wylfa Newydd wedi cael eu trefnu ar gyfer mis Ionawr 2016. Bydd hyn yn cynnwys y cynigion diweddaraf ar gyfer Safle'r Orsaf Bŵer, y Datblygiadau Cysylltiedig a'r Cyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer.

Rhagwelir y cynhelir ail gam ffurfiol ymgynghoriad cyn ymgeisio Horizon yn nes ymlaen yn 2016. Yn yr un modd â Cham Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio, bydd hyn yn cael ei hysbysebu'n eang ar draws Ynys Môn yn ogystal ag ar wefan Horizon (www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad).

Bydd Cam Dau ein hymgynghoriad cyn ymgeisio yn ymgynghoriad statudol i ddiwallu gofynion llawn y Ddeddf Cynllunio, a bydd y deunyddiau ar ei gyfer wedi cael eu llunio gan yr adborth a gafwyd drwy Gam Un yr ymgynghoriad cyn ymgeisio a'r digwyddiadau gwybodaeth a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2015 a mis Ionawr 2016. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle arall i Horizon ymgysylltu â phobl Ynys Môn a gogledd Cymru er mwyn deall blaenoriaethau'r gymuned.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

PŴER NIWCLEAR
HORIZON
NUCLEAR POWER

CYSYLLTWCH Â NI:
Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu adborth am Brosiect Wylfa Newydd gallwch chi gysylltu â ni ar ein llinell gymorth radffôn Wylfa Newydd arbennig a'n cyfeiriad e-bost, drwy ffonio **0800 954 9516** neu e-bostio **ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com**

Horizon Nuclear Power
5210 Valiant Court
Gloucester Business Park
Delta Way, Gloucester, GL3 4FE

Ff +44 (0) 845 300 6816

www.horizonnuclearpower.com/hafan

Mae'r holl ddeunydd sydd yn y ddogfen hon, oni nodir fel arall, yn hawlfraint i Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd, ac ni cheir ei atgynhyrchu heb ganiatâd ymlaen llaw. Gall defnyddio neu gopïo'r deunydd heb awdurdod mewn unrhyw ffordd dorri rheolau nod masnach, hawlfraint a hawliau eiddo eraill a statudau sifil a throseddol. Ni cheir defnyddio'r deunydd mewn unrhyw ffordd sy'n torri unrhyw nod masnach, hawlfraint na hawliau eiddo eraill ac mae Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd yn cadw pob hawl mewn perthynas â defnyddio heb awdurdod o'r fath.

HNP-S5-PAC-REP-00044